

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

POLISI DATBLYGU CASGLIADAU

Egwyddorion a Chanllawiau

Adolygwyd 2016

**POLISI DATBLYGU CASGLIADAU
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU:
Egwyddorion a Chanllawiau**

Cynnwys

1. Rhagymadrodd
2. Cyd-destun
3. Egwyddorion ac Ystyriaethau
4. Sut y mae deunydd yn cyrraedd y Llyfrgell
5. Canllawiau datblygu'r casgliad
6. Crynodeb

1. Rhagymadrodd

Mabwysiadwyd y Polisi Datblygu Casgliadau presennol gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 1 Medi, 2010 ac y mae'r hyn sy'n dilyn yn fersiwn ddiwygiedig o'r polisi hwnnw.

Y Llyfrgell Genedlaethol yw prif lyfrgell ac archifdy Cymru. Mae'n ffynhonnell wybodaeth enfawr, yn drysordy i bob pwnc, ac yn storfa fyw o ddiwylliannau cofnodedig Cymru sydd ar gael yn rhad ac am ddim. Mewn gwirionedd mae dwy agwedd i'r Llyfrgell Genedlaethol - adeilad ffisegol ysbennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i ddeunydd print, llawysgrifau, archifau, casgliadau gweledol a chlyweledol, a llyfrgell ac oriel ar-lein sydd ar gael trwy'r we.

Yn y ddogfen broffwydol, 2020: *Golwg Hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru*¹, a fu'n destun trafodaeth i'r Bwrdd rai blynyddoedd yn ôl, fe adnabuwyd rhai gyrywyr allanol a fyddai'n effeithio ar allu'r Llyfrgell i gasglu ac ar y defnydd a wneid o'r casgliadau. Roedd effaith rhai o'r gyrywyr hyn eisoes i'w gweld pan fabwysiadwyd y Polisi hwn yn 2010, ac eraill yn dechrau dylanwadu ar ein gwaith. Erbyn hyn, y mae eu heffaith i'w gweld yn glir.

Y gyrywyr cydnabyddedig oedd:

1. Yr Economi Cyhoeddus. Fe ddaeth y cwtogi ar wariant cyhoeddus hir ddisgwyliedig ac erbyn hyn yr ydym wedi profi sawl blwyddyn o gyllidebau yn cael eu lleihau yn llym. Serch hynny, fe wynebodd y Llyfrgell yr her yn hyderus, yn rhannol trwy ein cynlluniau 'trawsnewid busnes' sydd wedi ein galluogi i ddiogeli gwasanaethau craidd ac i ymgymryd â dyletswyddau newydd anorfod ond hefyd trwy arolygu'r meysydd casglu hynny nad ydynt mor ganolog bellach i'n defnyddwyr. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi dangos dyfeisgarwch a dychymyg wrth lwyddo i ddenu arian ychwanegol cyhoeddus ac elusennol er mwyn cynnal ein casgliadau. Y mae prynu Llawysgrif Boston yn enghraifft nodedig o hyn.
2. Gwleidyddiaeth a Pholisïau. Bu Llywodraethau olynol Cymru hyd yma'n tueddu i rannu nodweddion cyffredin fel a ganlyn: amddiffyn y parth cyhoeddus; parodrwydd i roi'r gorau i fodolau San Steffan neu i beidio ag ymuno â hwy; rhoi blaenoriaeth i leihau anghydraddoldeb cymdeithasol; lleihau tlodi ac, yn ein maes ni, cefnogaeth ar gyfer diwylliant, y celfyddydau ynghyd â hybu, datblygu, ac arfer yr iaith Gymraeg. Os na fydd y consensws polisi eang hwn yn newid yn sylweddol yn ystod y degawd nesaf, yna dylai'r Llyfrgell Genedlaethol fod mewn sefyllfa dda i gyfrannu'n sylweddol at rai o brif dargedau a blaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae'n bwysig i Gymru a'i phobl ei bod yn cyfrannu'n gryf i amcanion addysgol, cymdeithasol, diwyllianol ac economaidd, ac mae ei hathroniaeth mynediad yn gyson ag agenda cynhwysiad cymdeithasol Llywodraeth Cymru.
3. Y Gyfraith. Er i Ddeddf Adnau Cyfreithiol 2003 ddod i rym dair blynedd ar ddeg yn ôl bellach, dim ond ym mis Ebrill 2013 y daeth y rheoliadau oedd yn angenrheidiol i weithredu'r Ddeddf i rym. Cafwyd cyfnod prysur o ragbaratoi ar gyfer y diwrnod hwnnw, mewn cydweithrediad â Llyfrgell Brydeinig a'r Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill, a bellach y mae pob math o ddatblygiadau, gan gynnwys archifo safleoedd gwe Cymru a gweddill y Deyrnas Gyfunol, adneuo cyhoeddiadau electronig trwy'r Porth Adneuo, rhoi mynediad i gyhoeddiadau Adnau Cyfreithiol Electronig yn hytrach nag i'r fersiwn bapur a derbyn a diogeli cyhoeddiadau electronig yn uniongyrchol i'n casgliadau, yn prysur ddatblygu'n rhan o waith pob dydd y Llyfrgell.

1

https://www.llgc.org.uk/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/dogfennaeth_gorfforaethol/dog_gorff_gwel_2020S.pdf

4. Cynhyrchwyr Gwybodaeth. Roedd trawsnewid byd cyhoeddi print traddodiadol a datblygiadau egniol cyhoeddi electronig ar-lein eisoes wedi cymryd camau breision pan gyhoeddwyd *2020 Golwg Hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru*. Ni fu pall ar y datblygiadau hyn yn y cyfamser ac fel y nodwyd uchod cafwyd ymateb yr un mor egniol o du'r Llyfrgell i gwrdd â'r her ac i wneud casglu'r cyhoeddiadau amrywiol hyn yn rhan o waith arferol y sefydliad. Yn yr un modd roedd dyfodiad archifau electronig yn rhywbeth y bu raid paratoi ar ei gyfer ac erbyn hyn y mae gan y Llyfrgell Uned newydd, MabLab, sydd yn arbenigo mewn diogeli a chadw dogfennau mewn fformatau electronig amrywiol. Er nad oes modd i'r Llyfrgell gystadlu â chwmnïoedd mawr fel Google a'u cynlluniau digido pellgyrhaeddol, y mae'r Llyfrgell hefyd wedi llwyddo yn rhyfeddol i ddigido casgliadau dethol, sylweddol sydd o ddi-ddordeb Cymreig..
5. Defnyddwyr a Defnyddio. Mae'r Llyfrgell wedi parhau i ddatblygu gwasanaethau ar-lein yn unol â dymuniad llawer o'n defnyddwyr trwy brosiectau digido uchelgeisiol a phrynu mynediad i adnoddau ar-lein. Er bod Adnau Cyfreithiol Electronig yn gam i'r cyfeiriad hwn y mae natur Adnau Cyfreithiol yn cyfyngu ar y defnydd y gellir ei wneud o'r deunydd - mae'n rhaid bod yn stafelloedd darllen y Llyfrgell er mwyn ei ddefnyddio. Yr ydym yn parhau i ystyried yn ofalus anghenion ein defnyddwyr wrth ychwanegu at ein casgliadau ac i ganolbwyntio'n briodol ar ddeunyddiau Cymreig.
6. Mae Strategaeth y Llyfrgell, *Gwybodaeth i bawb 2014-17*, yn dilyn yr un trywydd o danlinellu pwysigrwydd casgliadau traddodiadol tra'n parhau i ddatblygu ein casgliadau yn y fformatau electronig newydd a chymryd mantais o unrhyw ddatblygiadau technolegol a all hybu mynediad a defnydd. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at ddau faes pwysig arall. Yn gyntaf:

Gan fod creadigrwydd, arloesedd a gwybodaeth yn allwedd i adfywio cymdeithasol, bydd adnoddau corfforol a deallusol y Llyfrgell Genedlaethol yn cael eu llywio fel y gall wneud gwir wahaniaeth – mesuradwy a manteisiol – i fywydau pobl Cymru.²

ac yn ail:

Ar yr un pryd, mae angen cynyddol i gyrff a gyllidir yn gyhoeddus arddangos effeithiau cymdeithasol ac economaidd eu gweithgareddau.³

Âr strategaeth yn ei flaen i ddatgan:

Bydd y Llyfrgell Genedlaethol, fel sefydliad cenedlaethol, yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i ddiwylliant, i gymdeithas ac i economi Cymru.⁴

Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Wrth wraidd y Llyfrgell mae ei chasgliadau cyfoethog ac amrywiol, rhai ohonynt wedi eu cynnwys yng Nghofrestr 'Cof y Byd' UNESCO:

- llyfrgell fwyaf Cymru yn dal tua 6.5 miliwn o gyfrolau printiedig, yn llyfrau, cylchgronau, ynghyd â miloedd o gyfrolau o bapurau newydd. Fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol rydym yn derbyn tua 72,000 o lyfrau a 100,000 o rifynnau o gyfnodolion a phapurau newydd bob blwyddyn ac yn casglu canran uchel o holl gyhoeddiadau printiedig y DU ac Iwerddon, rhai ohonynt bellach mewn fformat electronig.

² *Gwybodaeth i bawb, 2014-2017*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2013, t 1.

https://www.llgc.org.uk/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/dogfennaeth_gorfforaethol/corff_strat_GwybodaethiBawb_2014_2017C.pdf

³ Ibid, t 1.

⁴ Ibid, t 1.

- y casgliad cenedlaethol o lawysgrifau Cymraeg sydd, o ychwanegu ato lawysgrifau mewn ieithoedd eraill, yn cynnwys dros 40,000 o gyfrolau
- y casgliad mwyaf o archifau yng Nghymru, yn cynnwys dros 200 o fedrau ciwbig o ddogfennau archifol, gan gynnwys yr Archif Wleidyddol Gymreig ac Archif Llenyddiaeth Cymru
- y casgliad mwyaf cynhwysfawr o beintiadau a phrintiau topograffyddol yng Nghymru, yn gyfanswm o dros 60,000 o ddarluniau
- y prif gasgliad o bortreadau o Gymry, yn cynnwys 15,000 o beintiadau ac o luniau portread.
- y casgliad cenedlaethol o ddelweddau ffotograffig Cymreig, yn cynnwys bron i filiwn o ddelweddau
- y casgliad cartograffig mwyaf yng Nghymru, yn cynnwys dros filiwn o fapiau.

Y mae'r Llyfrgell yn gartref i:

- Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, sy'n cynnwys dros 5.5 miliwn o droedfeddi o ffilm; dros 250,000 o oriau o fideo; dros 200,000 o oriau o recordiadau sain, a miloedd o dapiau, recordiau a chryno ddisgiau
- adnoddau wedi'u digido gan y Llyfrgell ac ar gael i'w defnyddwyr trwy gatalog y Llyfrgell
- gasgliad o ficroffilmiau a microffish amrywiol sy'n rhychwantu meysydd casglu'r Llyfrgell ac yn cynnwys papurau newydd a llyfrau wedi'u microffilmio

ac yn borth mynediad i:

- nifer gynyddol o adnoddau electronig ar-lein ar gyfer dinasyddion Cymru y gellir eu defnyddio o fewn yr adeilad ac o bell
- yr adnoddau electronig y cynigir mynediad iddynt trwy gytundeb partneriaeth â Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol y DU ac Iwerddon ac yn unol â rheoliadau a lunnir o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003
- nifer gynyddol o adnoddau, gwefannau, e-gyhoeddiadau, archifau, cofnodion, mapiau, lluniau, ffotograffau, sain a delweddau mewn fformat electronig

2. Cyd-destun

2.1 Sefydlu'r Llyfrgell

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gan Siarter Frenhinol yn 1907. Yng Nghymru, mae ei chasgliadau, a ehangwyd dros y blynyddoedd ac a ddisgrifir uchod (gweler 1.7) yn ddiguro. Mewn llawer o achosion, maent o statws rhyngwladol. Derbynnir canran uchel o'i daliadau o weithiau cyhoeddedig trwy Adnau Cyfreithiol (gweler 4.1), gyda'r gweddill yn cael eu derbyn trwy bryniant, rhodd, cymynrodd neu adnau.

2.2 Y Siarter

Arweinir datblygiad y casgliad gan Siarter y Llyfrgell⁵ sy'n datgan mai nod y Llyfrgell yw:

*casglu, cadw a rhoi mynediad i wybodaeth gofnodedig o bob math ac ar bob ffurf, yn arbennig gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu.*⁶

2.3 Deddfwriaeth Berthnasol

Mae deddfwriaeth a chytundebau penodol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisiau'r Llyfrgell, gan gynnwys:

- Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003. Mae'r awdurdod gan y Llyfrgell i hawlio oddi wrth gyhoeddwr gopi o bob gwaith argraffedig sydd wedi ei gyhoeddi yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Ers Ebrill 2013 y mae'r deddf hefyd yn galluogi hawlio cyhoeddiadau electronig a meicroffurf.
- Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a diwygiadau diweddarach. Penodwyd y Llyfrgell yn 'fan adneuo' (place of deposit) ar gyfer cofnodion cyhoeddus ac mae'n cwrdd â Safonau Cadwrfeydd Cofnodion.
- Gorchymyn Hawlfraint (Recordio ar gyfer Archifau o Ddarllodiadau ac o Raglenni Gwifren Mewn Dosbarth Penodol) (Cyrff Penodedig) 1991.

2.4 Cytundebau a Threfniadau Gwirfoddol

Gwnaethpwyd cytundebau gwirfoddol eraill o dro i dro, gan gynnwys:

- Cod Ymarfer er mwyn rhoi cyhoeddiadau di-brint ar adnau gwirfoddol yn ôl cytundeb rhwng y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, yr ADCC (Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon), a'r diwydiant cyhoeddi, Ionawr 2000 Mae'r cod hwn bellach wedi cael ei ddisodli i raddau helaeth gan reoliadau Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003 (daeth y rheoliadau i rym yn 2013).
- Cytundeb sy'n ymwneud â rhoi cofnodion yr Eglwys yng Nghymru ar adnau yn y Llyfrgell Genedlaethol, Medi 1976.
- Cytundeb gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru i ddod yn gadwrfa i'w chofnodion, 1934.
- Memorandwm o Gytundeb rhwng y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill y DG, er mwyn darparu data digidol yr Arolwg Ordnans i'r Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, Rhagfyr 2006.
- Cytundeb gydag Asiantaeth Ffilm Cymru yn cynnwys amod bod rhaid adneuo copi gorffenedig o weithiau a ariennir gan yr Asiantaeth, gydag AGSSC (Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru).
- Memorandwm o Gytundeb rhwng Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol y DG ac Iwerddon a'r Llyfrgell Brydeinig er mwyn sicrhau paratoi cofnodion llyfryddol i ganran o'r monograffau a dderbynnir gan y Llyfrgelloedd hynny.

⁵ *Siartr Frenhinol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2006.*

https://www.llgc.org.uk/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/llywodraethiant_llgc/Siartr_at_odol_2006/bdd_str_SiartrAtodol_2006C.pdf

⁶ *Siartr Frenhinol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2006*, paragraff 4.

https://www.llgc.org.uk/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/amdanom_ni/llywodraethiant_llgc/Siartr_at_odol_2006/bdd_str_SiartrAtodol_2006C.pdf

- Memorandwm o Gytundeb rhwng y Llyfrgell, y Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban i sefydlu isadeiledd technegol er mwyn prosesu a rhoi mynediad i gyhoeddiadau Adnau Cyfreithiol Electronig.
- Memorandwm o gytundeb rhwng y Llyfrgell ac aelodau unigol o Rwydwaith Cadwrfeydd Cymru sydd yn amlinelli telerau gwasanaeth ar gyfer cymryd rhan yn y gwasanaeth cynaeafu e-draethodau gradd Cymru (2010).

2.5 Nid oes cytundebau na chwaith ddeddfwriaeth gynhwysfawr sydd yn hyrwyddo casglu deunydd clyweled ar-lein. Y mae'r maes hwn yn un sy'n tyfu'n sylweddol, ac er bod peth o'r deunydd yn debyg o fod yn effemera, y mae hefyd yn ddeunydd pwysig y byddem am ei ychwanegu at ein casgliad. Ar hyn o bryd, y mae hyn yn cael ei wneud mewn ffordd dameidiog a heb gynlluniau pendant a systematig o fynd i'r afael â'r maes, ac er ymdrechion glew ar ran y Llyfrgell, y perygl yw y bydd deunydd yn cael ei golli am byth.

2.6 Ariannu Datblygu'r Casgliad

Ariennir datblygiad y casgliad gan Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd, yn y gorffennol, wedi clustnodi cymhorthdal pwrcasu casgliadau caeedig i'r diben hwn. Yn 2015 - 2016 roedd y cymhorthdal yn £305,000. (Ceir £200,000 yn ychwanegol ar gyfer prynu mynediad i adnoddau electronig ar-lein). Defnyddir y cymhorthdal er mwyn ychwanegu at y casgliad yn unig, ac ni ellir ei drosglwyddo i gyllidebau eraill. Ychwanegir at y cymhorthdal pwrcasu hwn gan gronfeydd preifat y Llyfrgell ei hun. Lle bydd pwrcasiadau arbennig y tu hwnt i allu'r Llyfrgell i brynu, gwneir ceisiadau am gymorthdaliadau oddi wrth gyrff ariannu megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Y Gronfa Gelf a Chyfeillion y Llyfrgelloedd Cenedlaethol. Yn 2013 prynwyd Llawysgrif Boston o Gyfraith Hywel Dda (NLW MS 24029A) trwy gymorth hael Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ynyd â chyfraniadau o Gyfeillion y Llyfrgelloedd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Y mae'r Llyfrgell wedi derbyn grantiau oddi wrth JISC er mwyn digido nifer o gasgliadau. Derbyniwyd arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu isadeiledd technegol Adnau Cyfreithiol Electronig a pharatoi ar gyfer y rheoliadau sydd ynghlwm â hynny.

2.7 Cynnwys y Casgliad

Bu'r casgliad yn eang ei gwmpas, a hynny o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys nid yn unig ddefnyddiau Cymraeg a Chymreig ond, trwy Adnau Cyfreithiol, pwrcas a rhodd, weithiau cyhoeddedig sy'n cwmpasu meysydd eang o ddysg. Ar ben hynny, gan mai'r Llyfrgell Genedlaethol yw'r unig lyfrgell yng Nghymru sy'n ymgynghraedd at gadw a diogelu ei chasgliadau yn yr hir dymor, bu'r angen i gasglu ar gyfer defnydd yn y dyfodol yn ogystal â'r presennol yn flaenoriaeth o'r cychwyn cyntaf. Erys y flaenoriaeth hon yn bwysig, ond wrth edrych eto ar anghenion a disgwyliadau ein defnyddwyr, a thwf adnoddau electronig, teimlwn fod rhaid wrth newid pwyslais ein casglu er mwyn adlewyrchu'n well yr hyn a fydd ei angen ar ein defnyddwyr presennol, a defnyddwyr y dyfodol. Yn ogystal, ac er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r her o orfod casglu defnyddiau newydd electronig y mae'r Llyfrgell yn gweithredu yn ôl egwyddorion cadwrfeydd digidol dibynadwy fel y'u diffinnir gan safonau ac arferion gorau rhyngwladol perthnasol. Yn benodol, datblygir ei harferion a'i gweithdrefnau i ateb y gofynion a ddisgwyilir yn arferol gan gadwrfa ddigidol ddibynadwy.

Ers 2011 mae'r Llyfrgell wedi sefydlu Uned MabLab sydd â dyletswyddau arbennig yn ymwneud â phrosesu, diogelu a sicrhau cadwedigaeth tymor hir ffeiliau electronig o bob math. Mae Uned MabLab yn gweithio'n agos iawn â'r Isadran Archifau nid yn unig er mwyn trin a thrafod archifau cymysg (papur ac electronig) neu'n gyfan gwbl electronig ond hefyd, er mwyn gweithio â chyhoeddiadau electronig sydd wedi cyrraedd y Llyfrgell yn uniongyrchol, a heb fynd i'r Isadeiledd Adnau Cyfreithiol Electronig.

2.8 Mynediad at y Casgliad

Bu'r casgliad ar gael i ddefnyddwyr ar safle'r Llyfrgell o'r cychwyn cyntaf. Nid yw'r Llyfrgell Genedlaethol yn llyfrgell fenthyca, fel y cyfryw, ac nid yw'n rhoi ar fenthyg weithiau a dderbyniwyd trwy Adnau Cyfreithiol. Er bod natur gorfforol llawer o'n daliadau traddodiadol yn

golygu bod mynediad atynt yn gyfyngedig i'r ystafelloedd darllen, y mae'r Llyfrgell yn gweithio'n egniol, trwy ddigido ei chasgliadau, derbyn fformatau digidol a phrynu mynediad at adnoddau ar-lein, er mwyn gallu cynnig mynediad o bell i'n defnyddwyr. Y mae'r Llyfrgell yn medru rhoi benthyg eitemau ar gyfer arddangosfeydd allanol, a phwrpasau eraill.

3. Egwyddorion ac Ystyriaethau

Y mae'r egwyddorion a'r ystyriaethau isod yn gyson â pholisïau casglu'r gorffennol ar lefel uchel, ond yn cynnwys rhai datblygiadau a newidiadau er mwyn sicrhau bod y Polisi yn cydfynd â chyfeiriad strategol y Llyfrgell heddiw ac yn ymateb i ddatblygiadau technolegol a hollbresenoldeb y We. Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu'r ffaith fod casgliadau'r Llyfrgell yn ffurfio un casgliad unedig a phwysigrwydd datblygu'r casgliad hwnnw er lles y wlad a'i dinasyddion heddiw ac yn y dyfodol.

3.1 Nod y Llyfrgell, yn y lle cyntaf, yw diwallu anghenion gwybodaeth ac ymchwil poblogaeth Cymru, naill ai o'i chasgliadau Cymreig neu o'i casgliad ymchwil rhyngwladol (gweler 5.4 isod), ond hefyd i ddiwallu anghenion gwybodaeth ac ymchwil unrhyw ddefnyddwyr y tu allan i Gymru, yn enwedig o ran gwybodaeth am Gymru ond hefyd trwy ddarparu gwybodaeth o'r casgliad ymchwil rhyngwladol. Y mae gennym hefyd ddyletswydd i gasglu ar gyfer anghenion defnyddwyr y dyfodol ac nid defnyddwyr heddiw yn unig.

3.2 Tra bod y Llyfrgell yn ymgyraedd at fod yn gynhwysfawr yn ei chasgliadau, ni all gasglu popeth. Mae'n rhaid iddi fod yn ddethol. Mae dewis a dethol yn seiliedig ar y blaenoriaethau a fynegir yn y Polisi Datblygu Casgliadau hwn.

3.3 Mae gan y Llyfrgell, wrth reswm, ddyletswydd arbennig dros Gymru a'i chofnod hanesyddol a diwylliannol. Byddwn yn parhau i gasglu mor eang â phosibl yn y maes hwn, ym mhob fformat, tra ar yr un pryd yn cydnabod bod angen dethol yn fanwl wrth drafod deunydd unigryw fel archifau ac yn gynyddol, wrth i gyhoeddiadau print ac electronig barhau i dyfu, y bydd yn rhaid dethol yn y maes hwn hefyd.

3.4 Mae gan y Llyfrgell hefyd ddyletswydd i gasglu ym maes Astudiaethau Celtaidd ac mi fyddwn yn parhau i wneud hynny.

3.5 Mae'r Llyfrgell yn cynnal casgliad ymchwil rhyngwladol trwy ei statws fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol a'i gweithgaredd pwrkasu.

3.6 Mae'r Llyfrgell erioed wedi prynu yn eang ym maes cyhoeddiadau print. Daeth yn amlwg ers sawl blwyddyn fod defnyddiau electronig ar-lein yn ffynonellau gwybodaeth pwysig iawn i ddefnyddwyr ym mhobman ac mae'n bosibl mai hwy fydd y ffynonellau gwybodaeth o ddewis yn amlach na pheidio yn y dyfodol. Y mae defnyddwyr yn disgwyl cael mynediad at nifer fawr o adnoddau gwybodaeth ar-lein yn ddirwystr ac am gael eu chwilio i gyd neu gyfran ddetholedig ohonynt yn rhydd. Un adnodd yn unig ymhlith llawer yw catalog ar-lein a gwehoan y Llyfrgell a bydd llawer o ddefnyddwyr yn amharod i ddod i adeilad y Llyfrgell, ac yn disgwyl yn lle gael mynediad o bell at adnodd testun llawn ar-lein.

3.7 Wrth dderbyn defnyddiau digidol a thraddodiadol i'w chasgliadau y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell baratoi ar gyfer eu cadwdegagaeth tymor hir. Yn aml iawn mae angen gwaith cadwriaethol a chadwdegagaethol ar gyfryngau traddodiadol er mwyn eu diogeli at y dyfodol ac ni ellir gadael cyfryngau digidol am gyfnodau amhenodol, heb ymyrraeth gadwdegagaethol o ryw fath, a disgwyl cael mynediad didrafferth atynt. Y mae'n nod pwysig i'r Llyfrgell felly i sicrhau mynediad tymor hir at gyfryngau traddodiadol ac i weithio tuag at y safonau a ddisgwylir gan Gadwrfa Ddigidol Ddibynadwy⁷ a fydd yn gallu gwarantu parhad ei chyfryngau digidol at y dyfodol. Bydd rhaid ystyried yn ofalus pa adnoddau fydd eu hangen er mwyn diogelu defnyddiau traddodiadol a digidol fel ei gilydd a bydd hyn yn golygu blaenoriaethu

⁷ *Polisi a strategaeth cadwdegagaeth ddigidol*. Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2008, t. 8.
http://mewnol.llgc.org.uk/fileadmin/mewnol/documents/pdf/2008_cadwddigidol.pdf

gweithgaredd cadwedigaethol, ac yn effeithio ar benderfyniadau i dderbyn deunydd neu beidio.

3.8 Er bod gan y Llyfrgell weledigaeth o ddigido ystod eang iawn o gofnod hanesyddol a diwylliannol Cymru a darparu mynediad ar-lein ato, bydd o hyd gyhoeddiadau print a gweithiau di-brint ffisegol eraill na fyddant ar gael mewn ffurf ddigidol a bydd yn ddyletswydd ar y Llyfrgell i'w diogelu a sicrhau mynediad atynt yn yr adeilad.

3.9 Wrth gyfeirio at brynu gweithiau electronig ar-lein, sôn yr ydym mewn gwirionedd am brynu mynediad at yr adnoddau hyn. Dim ond ar achlysuron arbennig y bydd y Llyfrgell yn meddu ar gopi digidol llawn o adnodd a brynwyd, ar weinydd yn y Llyfrgell. Weithiau byddwn yn prynu mynediad o'r fath gan wybod ei fod yn rhywbeth dros dro na fydd ei angen ar ein defnyddwyr am byth.

3.10 Dechreuwyd adeiladu'r casgliad mewn cyfnod pan nad oedd defnydd yn ystyriaeth mor bwysig ac mai creu casgliad o safon genedlaethol a rhyngwladol oedd y nod. Ers rhai blynyddoedd mae'r pwyslais ar ddefnyddioldeb ymarferol a mesuradwy'r casgliad wedi datblygu - yn rhannol o leiaf oherwydd dylanwad y We, ac adnoddau electronig y gellir mesur y defnydd a geir ohonynt. Wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus prin i brynu deunydd print ac ar-lein nad ydynt yn unigryw na chwaith yn Gymreig, rhaid ystyried bob tro maint y defnydd tebygol ohonynt. Yn sgil cyhoeddi strategaeth newydd y Llyfrgell, *Gwybodaeth i bawb, strategaeth 2014-2017* byddwn hefyd yn ystyried effaith posibl ein casgliadau ar gymdeithas a diwylliant Cymru.

3.11 Lle'n briodol bydd y Llyfrgell yn awyddus i sicrhau meddiant ar hawliau'r gwrthrychau a dderbynnir i'w chasgliadau, yn enwedig yr hawl i ddigido eitemau ffisegol a defnyddio'r copïau hynny mewn amryw ffyrdd i wella'r gwasanaeth a gynigir, a hefyd yr hawl i newid fformatau digidol deunydd electronig er mwyn ei ddiogelu at y dyfodol. Rheolir hyn trwy gytundebau ffurfiol a ffurflenni caniatâd.

3.12 Mae'r Llyfrgell yn cynnal casgliad o bwysigrwydd cenedlaethol. Cyfeirir deunydd o ddiddordeb lleol yn unig at lyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd addas rhanbarthol.

3.13 Ceisia'r Llyfrgell osgoi dyblygu gwaith eraill, a chydweithia â chwaer sefydliadau yng Nghymru a'r tu hwnt lle bo hynny'n addas. Y mae'r Llyfrgell eisoes yn prynu rhai adnoddau electronig ar-lein, ar y cyd gyda sefydliadau eraill a thrwy gydweithrediad â MALD.

3.14 Mae'r Llyfrgell, wrth dderbyn deunydd, yn ceisio adlewyrchu, mor wrthrychol ag sydd bosibl, bob agwedd o Gymru'r gorffennol a'r presennol, heb gynrychioli unrhyw safbwyntiau neilltuol, boed y rheini'n hanesyddol, sectyddol neu'n unrhyw safbwynt arall. Mae'n derbyn deunydd yn y naill a'r llall o brif ieithoedd Cymru - Cymraeg a Saesneg. Y mae hefyd yn derbyn deunydd sydd yn berthnasol i gymunedau Gymreig sydd o darddiad ethnig y tu allan i Gymru - a, lle bo hynny'n briodol, mewn ieithoedd eraill a arferwyd ac a arferir, yng Nghymru a thu hwnt. Ceisir dilyn yr un gwrthrychedd wrth ychwanegu at ein casgliadau nad ydynt yn ymwneud â Chymru'n uniongyrchol.

3.15 Yn unol â'r *Code of Ethics for Museums*⁸, y mae'r Llyfrgell yn ymrwmo i gaffael deunydd yn onest ac yn gyfrifol ac i gydnabod buddiannau'r bobl sydd wedi gwneud, wedi defnyddio, wedi bod yn berchen, wedi casglu neu wedi rhoi eitemau yn y casgliadau.

3.16 Mae'r broses o dderbyn defnyddiau yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y nawdd sydd ar gael yn y cymhorthdal pwrcasu casgliadau, ac mae ystyriaethau cadwedigaeth, storio a chatalogio yn dylanwadu arni hefyd. Mae adnoddau'r Llyfrgell yn gyfyngedig ac er y byddwn yn rhoi ystyriaeth i gasgliadau a deunydd nad oes cartref iddynt ac sydd o'r herwydd mewn perygl o gael eu colli am byth, nid ydym yn gallu gwarantu i fod yn noddfa i ddeunydd o'r fath ym mhob achos. Dilyna'r Llyfrgell bolisiau caeth yn ymwneud â chadw, gwaredu a dad-dderbyn eitemau.

⁸ <http://www.museumsassociation.org/publications/code-of-ethics>

3.17 Mae'r Llyfrgell yn derbyn defnyddiau mewn nifer o wahanol fformatau, ond nid ydyw'n casglu arteffactau tri dimensiwn, heblaw o dan amgylchiadau arbennig iawn.

4. Sut y mae deunydd yn cyrraedd y Llyfrgell

Yn hanesyddol y mae deunydd wedi cyrraedd y Llyfrgell mewn nifer o wahanol ffyrdd wrth iddi ganolbwyntio ar adeiladu casgliad Cymreig cynhwysfawr ym mhob fformat, casgliad print Adnau Cyfreithiol cynhwysfawr, casgliad Celtaidd arwyddocaol a chasgliad ymchwil rhyngwladol print i gynnal ysgolheictod.

4.1 Adnau Cyfreithiol Print

Mae tua 90% o'r gweithiau printiedig a dderbynnir gan y Llyfrgell yn gopïau rhad ac am ddim sy'n cael eu hawlio oddi wrth gyhoeddwr, o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol. Fel yn achos pedair o'r pum Llyfrgell Adnau Cyfreithiol arall yn y DG ac Iwerddon, y mae'r Llyfrgell yn llogi gwasanaethau Asiantaeth Adnau Cyfreithiol i hawlio, cydnabod derbyn a dosrannu cyhoeddiadau ar ei rhan. Hyn sy'n gyfrifol am 90% o dderbynion Adnau Cyfreithiol [hawlfraint], ac mae'r 10% sy'n weddill, yn bennaf yn gyhoeddiadau Cymraeg neu'n ymwneud â Chymru, yn cael eu hawlio'n uniongyrchol oddi wrth gyhoeddwr. Mae twf parhaol cyhoeddi yn y Deyrnas Gyfunol yn ystyriaeth bwysig iawn i'r Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol ac y maent i gyd yn awyddus i reoli'r deunydd yn fwy effeithiol. Yn unol â'r awydd hwn, bydd y Llyfrgell yn parhau i leihau'r nifer o gyhoeddiadau y mae'n eu derbyn, mewn meysydd nad ydynt mor berthnasol iddi, tra ar yr un pryd yn parhau i dderbyn deunydd sy'n ateb gofynion ei defnyddwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, ar y cyd, yn sicrhau bod o leiaf dau gopi o bob cyhoeddiad o fewn y Deyrnas Gyfunol yn cael eu diogelu.

4.2 Adnau Gwirfoddol

O dan gytundeb Adnau Gwirfoddol Ionawr 2000, a luniwyd er mwyn symud tuag at drefn adneuo cyhoeddiadau all-lein a microffurf nad oeddent yn cael eu hadneuo dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol ar y pryd, hawlid unrhyw gyhoeddiadau electronig all-lein a microffurf a gyhoeddwyd yng Nghymru a'r DG oddi wrth gyhoeddwr yn uniongyrchol. Y mae'r cytundeb hwn bellach wedi'i ddisodli i bob pwrpas gan reoliadau Deddf y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003, a ddaeth i rym yn Ebrill 2013.

4.3 Adnau Cyfreithiol Electronig

Ers i'r rheoliadau uchod ddod i rym, y mae'r Llyfrgell a llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill Prydain ac Iwerddon a'r cymdeithasau cyhoeddwr, wedi gweld eu gwaith o sefydlu a datblygu isadeiledd Adnau Cyfreithiol Electronig, ynghyd â gweithdrefnau pwrpasol, yn araf ddwyn ffrwyth. Y mae nifer o ddatblygiadau pwysig y gellir manylu arnynt, er enghraifft:

- Sefydlu Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel un o'r pedair cainc Adnau Cyfreithiol Electronig yn y DG. Y tair cainc arall yw'r ddwy sydd gan y Llyfrgell Brydeinig ac un Llyfrgell Genedlaethol yr Alban.
- Gweithredu Rheoliadau Deddf y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003, a ddaeth i rym yn 2013 ac sydd yn caniatáu adneuo pob math o gyhoeddiadau electronig.
- Sefydlu Porth Adneuo ar-lein lle gall cyhoeddwr sydd wedi bod trwy broses cofrestru lwytho eu cyhoeddiadau electronig yn ddidrafferth er mwyn eu prosesu a'u diogelu.
- Sicrhau archifo gwefannau'r Parth We Prydeinig a thrwy hynny holl gynnyrch Cymreig y We.

4.4 *Prynant*

Defnyddir y cymhorthdal pwrcasu casgliadau i brynu rhai cyhoeddiadau nad ydynt yn cyrraedd casgliadau'r Llyfrgell o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol, a hefyd llawysgrifau ac archifau, cyhoeddiadau electronig, adnoddau graffigol, a sain a ffilm. Y mae'r Llyfrgell yn medru cyflogi asiantau tanysgrifiadau, a chyflenwyr y gellir trafod telerau ffafriol â hwy, ond rhaid prynu llawer o eitemau a chasgliadau hefyd oddi wrth unigolion neu gyflenwyr bychain, a bydd llyfrau hynafol, llawysgrifau a darluniau, er enghraifft, yn cael eu prynu'n aml mewn arwerthiannau. Gall y Llyfrgell ddefnyddio priswyr annibynnol wrth drafod gweithiau unigryw, megis gweithiau graffigol, archifau a llawysgrifau. Mae'r Llyfrgell yn prynu trwy gonsortiw m pan mae hyn yn briodol ac yn ddefnydd darbodus o'i hadnoddau. Wrth brynu deunydd unigryw, defnyddir cytundebau ffurfiol a ffurflenni caniatâd er mwyn sicrhau hawliau'r Llyfrgell drosto, e.e. hawlfraint.

4.5 *Rhodd a Chymynrodd*

Mae'r Llyfrgell yn parhau i fanteisio ar gefnogaeth hael cymwynaswyr, ac yn derbyn eitemau pwysig ac unigryw sydd yn cyfoethogi ei chasgliadau trwy rodd a chymynrodd. Fodd bynnag, ceidw'r hawl i ddidoli a gwrthod eitemau a gynigir nad ydynt yn cydweddu â'r Polisi Datblygu Casgliadau hwn, neu sy'n ddyblygion. Wrth drefnu i dderbyn rhoddion a chymynroddion, defnyddir cytundebau ffurfiol a ffurflenni caniatâd er mwyn sicrhau hawliau'r Llyfrgell drostynt lle'n briodol, e.e. hawlfraint.

4.6 *Derbyn yn lle talu treth*

Y mae'r Llyfrgell wedi derbyn deunydd pwysig i'w chasgliad yn y gorffennol yn unol â chynllun *Acceptance in Lieu* Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DG.

4.7 *Adnau*

Pan na fydd eitemau neu gasgliadau pwysig ar gael i'w derbyn trwy brynant neu rodd, mae modd i'r Llyfrgell ystyried derbyn defnyddiau ar adnau (benthyciad hirdymor), yn ddarostyngedig i amodau caeth a fynegir mewn Cytundeb Adnau ffurfiol. Wrth drefnu i dderbyn adneuo bydd hawliau'r Llyfrgell i wneud copïau dirprwyol o'r deunydd a thelerau eraill yn ystyriaethau pwysig.

4.8 *Cyfnewid*

Derbynnir nifer gyfyngedig o gyhoeddiadau trwy gyfnewid â sefydliadau a chyrrff eraill.

5. Canllawiau datblygu'r casgliad

Y mae'r adran hon yn amlinellid gweddol fanwl o'r canllawiau a ddefnyddir wrth dderbyn neu wrthod deunydd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn hanesyddol y mae'r Llyfrgell wedi casglu adnoddau print monograffig a chyfnodol; microffilmiau; microffish; mapiau print a llawysgrif; darluniau a ffotograffau analog; archifau a chofnodion papur; a chyfryngau sain a delweddau symudol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r casgliad wedi ehangu i gynnwys fersiynau wedi'u digido a deunydd digidanedig.

Wrth edrych ar y gwaith o safbwynt fformatau, dulliau derbyn a swyddogaethau casglu gwahanol y mae peth ailadrodd yn anhepgor. Wedi dweud hynny y mae nifer o ystyriaethau cyffredinol y dylid eu cadw mewn cof wrth drin derbynion o unrhyw fath:

- Mae gan y Llyfrgell ddyletswydd unigryw i ddiogelu cofnod hanesyddol a diwylliannol Cymru
- Mae gan y Llyfrgell hefyd ddyletswydd arbennig i ddiwallu anghenion gwybodaeth ei defnyddwyr mewn nifer o feysydd nad ydynt yn Gymreig

- Fwyfwy y mae ein defnyddwyr yn disgwyl darpariaeth o adnoddau ar-lein nad oes rhaid iddynt fod yn adeilad y Llyfrgell er mwyn ymgynghori â hwy. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau electronig neu ddeunydd a dderbynnir i'r Llyfrgell mewn ffurf ddigidol, e.e. archifau
- Mae pob eitem ffisegol yn golygu gwaith prosesu a darparu gofod storio i'r Llyfrgell a gall golygu gwaith cadwedigaethol hefyd
- Mae derbyn deunydd electronig i'r Llyfrgell, neu i'r isadeiledd Adnau Cyfreithiol Electronig, fel arfer, yn golygu ymrwymiad parhaol a thymor hir i gynnal y deunydd a darparu mynediad effeithiol ato ac o'r herwydd mae fformat y deunydd yn ystyriaeth bwysig wrth dderbyn
- Wrth reswm, y mae bod yn berchen neu'n geidwad ar waith yn wahanol i fod â hawliau drosto. Y mae bod yn ddeiliad hawliau yn ystyriaeth bwysig i'r Llyfrgell wrth dderbyn deunydd i'w chasgliadau oherwydd pwysigrwydd canolog digido, cadwedigaeth ddigidol a defnyddio deunydd mewn amrywiol ffyrdd pellach y bydd ein defnyddwyr yn gallu elwa arnynt.

5.1 *Deunydd Cymreig*

5.1.1 *Adnau Cyfreithiol Print*

Derbynnir y rhan fwyaf sylweddol o'r hyn sydd yn gyhoeddiad o Gymru neu o weddill Prydain ac yn ymwneud â Chymru mewn unrhyw fodd. Cesglir papurau newydd Cymru a'r Gororau. Dim ond mewn achosion eithriadol yn unig y gall y Llyfrgell gyfiawnhau derbyn deunydd effemera.

5.1.2 *Cyhoeddiadau Adnau Gwirfoddol*

Derbynnid cyhoeddiadau electronig all-lein a meicroffurf a gyhoeddwyd yng Nghymru oddi wrth yr Asiantaeth Adnau Cyfreithiol o dan y drefn Adneuo Gwirfoddol. Hefyd ceisid cyhoeddiadau electronig all-lein, ar-lein a meicroffurf a gyhoeddwyd yng Nghymru yn uniongyrchol o'r cyhoeddwr. Erbyn hyn y mae'r drefn Adnau Gwirfoddol wedi'i disodli gan Adnau Cyfreithiol Electronig.

5.1.3 *Cyhoeddiadau Electronig*

Ceir mynediad yn ystafelloedd darllen y Llyfrgell, trwy isadeiledd Adnau Cyfreithiol Electronig y DG, i gyhoeddiadau electronig o Gymru neu o weddill y DG sydd o ddi-ddordeb Cymreig. Mae peth o'r deunydd hwn yn cael ei adneuo'n uniongyrchol gan gyhoeddwr trwy'r Porth Adneuo ar ôl i'r Llyfrgell ei hawlio. Weithiau fe wneir y gwaith hwn ar ran y cyhoeddwr gan y Llyfrgell ac ar adegau fe drosglwyddir y deunydd trwy ddulliau eraill, megis FTP, lle mae maint y deunydd yn fawr. Mae'r Llyfrgell yn parhau i gynaeafu gwefannau ac adnoddau ar-lein eraill sydd yn dod o Gymru, trwy ganiatâd y cyhoeddwr, er bod rheoliadau a luniwyd o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003, wedi dod i rym. Er bod y rheoliadau newydd yn caniatáu casglu a chynaeafu'r cwbl o'r deunydd o Barth We'r DG y mae cyfyngiadau llym yn atal rhoi mynediad i'r deunydd hwn y tu allan i ystafelloedd darllen y Llyfrgell. Gall y Llyfrgell roi mynediad llawer ehangach i ddeunydd sydd yn cael ei gynaeafu trwy ganiatâd. Gwneir y gwaith o archifo'r We o dan reoliadau Adnau Cyfreithiol gan y Llyfrgell Brydeinig. Wrth gynaeafu a chael caniatâd y cyhoeddwr y mae'n bwysig, lle bo modd, i sicrhau'r hawl i gynnig mynediad at yr archif y tu hwnt i adeilad y Llyfrgell ac unrhyw hawliau eraill a fydd yn gymorth i'r Llyfrgell gwneud y defnydd gorau o'r deunydd .

5.1.4 *Cyhoeddiadau Swyddogol*

Daw cyhoeddiadau swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf print ac electronig, cyhoeddiadau swyddogol print y Deyrnas Gyfunol sy'n ymwneud â Chymru a chyhoeddiadau llywodraeth leol sy'n ymwneud â Chymru o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol ac Adnau Gwirfoddol.

5.1.5 Cyhoeddiadau Pwrcas a Rhodd

Derbynnir ail gopi o bob cyhoeddiad print cyfredol safonol trwy bwrcas fel arfer ond trwy rodd lle mae hynny'n bosibl. Ceisir derbyn trydydd copi rhodd yn ogystal ond nid ydym fel arfer yn prynu trydydd copi ac nid ydym yn derbyn mwy na thri chopi o unrhyw gyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig safonol oni bai bod copïau â nodweddion unigryw. Ychwanegir at ein casgliad trwy bwrcas a rhodd hefyd er mwyn llanw bylchau yn ein daliadau hanesyddol.

Y mae'r Llyfrgell yn y gorffennol wedi prynu mynediad at adnoddau electronig o ddiddordeb Cymreig nad ydynt eto i'w cael o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol. E.e. y mae'r Llyfrgell wedi prynu e-lyfrau o weithiau print sydd eisoes yn ei chasgliad er mwyn ehangu mynediad atynt y tu hwnt i adeilad y Llyfrgell. Wrth wneud hyn y mae defnydd tebygol a chost yn ystyriaethau canolog. Gyda thwf Adnau Cyfreithiol Electronig y disgwyl yw na fydd eisiau gwneud penderfyniadau o'r fath yn y dyfodol ac y bydd darpariaeth ar gyfer mynediad at ddeunydd o'r fath a chadwedigaeth ohono. Mynediad o fewn ystafelloedd darllen y Llyfrgell fydd hwn yn unig a lle bydd y Llyfrgell am gynnig mynediad ehangach na'r hyn a gynnigir o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol, 2003, bydd rhaid ystyried pwrcasu.

Cesglir copïau unigol o weithiau a gyhoeddir y tu allan i Brydain ac Iwerddon sydd yn ymwneud â Chymru, cymunedau Cymreig y tu allan i Gymru a phapurau newydd sydd yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Prynrir adnoddau ar-lein sydd o ddiddordeb Cymreig. Fel arfer nid yw'r rhain o ddiddordeb Cymreig yn unig ond yn hytrach yn adnoddau sydd yn berthnasol i'n casgliad ymchwil rhyngwladol ac yn cynnwys deunydd o ddiddordeb Cymreig. Ceir mynediad ar-lein at nifer o bapurau newydd o Gymru trwy adnodd o'r fath.

5.1.6 Archifau

Dyma faes o dderbynion lle mae dewis a dethol yn hanfodol, a lle bo hynny'n bosibl, yn cael ei wneud mewn cydweithrediad agos â rhoddwr/adneuwyr. Y canlynol yw'r prif categorïau o archifau a dderbynnir:

- Cofnodion Cyhoeddus
- Cofnodion eglwysig
- Cofnodion teuluoedd a stadau (ychwanegiadau at archifau a gedwir eisoes gan y Llyfrgell yn unig)
- Archifau sefydliadau a chymdeithasau detholedig sy'n gweithredu ar raddfa genedlaethol yng Nghymru
- Papurau personol llenorion, arlunwyr, cerddorion, gwleidyddion, ysgolheigion ac eraill sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl, gan roi ystyriaeth i gynnwys a chyfoeth yr archif yn ogystal
- Archifau'r pleidiau gwleidyddol a charfannau pwysu cenedlaethol ond nid archifau canghennau a rhanbarthau
- Cofnodion busnes a diwydiant
- Trafodir ychwanegiad at archifau a gedwir yn y Llyfrgell yn barod ar sail achosion unigol

Yn gynyddol bydd archifau yn rhai hybrid neu yn gwbl electronig. Mae'r gallu i storio deunydd o'r math yn y Llyfrgell yn ddiogel, cyn iddo gael ei brosesu neu ei gatalogio, yn hanfodol bwysig. Bydd sicrhau cadwedigaeth ddigidol, tymor hir o'r fath ddeunydd ar ôl hynny, yr un mor bwysig. Ni allwn dderbyn deunydd digidol unigryw i'r Llyfrgell heb sicrhau ein gallu i'w gadw a chynnal mynediad iddo yn y tymor hir.

Ni dderbynnir archifau ar adnau heblaw fel ychwanegiad at gasgliad sydd yma ar adnau yn barod, neu mewn achosion arbennig lle nad oes modd ei dderbyn fel rhodd neu bryniad. Derbynnir deunydd ar adnau ar ôl dod i gytundeb manwl ar hawliau a thelerau. Gall hyn gynnwys hawliau i ddigido a defnyddio'r fersiynau digidol hynny mewn adnoddau newydd o fudd i'n defnyddwyr.

5.1.7 *Llawysgrifau*

Cesglir casgliadau o lawysgrifau, cyfrolau llawysgrif, a dail llawysgrif, sydd o ddiddordeb cenedlaethol i Gymru. Gall y deunydd hwn ddod i'r Llyfrgell trwy bwrcas neu'n rhodd, ac yn achlysurol iawn fel adnau. Wrth dderbyn, ceisir sicrhau hawliau i ddigido'r llawysgrifau hyn, a defnyddio'r fersiynau digidol hynny mewn dulliau newydd fydd o fudd i'n defnyddwyr.

5.1.8 *Sain a Delweddau Symudol*

Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru yw'r uned yn y Llyfrgell sydd yn gyfrifol am gasglu deunydd sain a delweddau symudol a dyma'r unig gasgliad cyhoeddus yng Nghymru sy'n gallu trin a thrafod ystod eang o ddefnyddiau clyweledol hanesyddol. Derbynnir defnyddiau o ddiddordeb Cymreig ym mron bob fformat sain a delweddau symudol, e.e. ffilm, disgiau, tapiau sain rîl agored, tapiau fideo, cryno-ddisgiau, disgiau fideo digidol (DVDs).

Un nod sydd gan yr Archif yw creu casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau clyweled o ddiddordeb Cymreig, ac fe wneir hyn yn bennaf drwy bwrcasu deunydd, gan nad yw cyhoeddiadau clyweledol y tu fewn i gyfundrefn Adnau Cyfreithiol nac Adnau Gwirfoddol.

Cesglir hefyd ddetholiad helaeth o ddarllediadau radio a theledu Cymreig, yn bennaf erbyn hyn, ar ffurf ddigidol, drwy recordio oddi ar yr awyr. Caniateir hyn dan: Gorchymyn Hawlfraint (Recordio ar gyfer Archifau o Ddarllediadau ac o Raglenni Gwifren Mewn Dosbarth Penodol) (Cyrrff Penodedig) 1991.

Derbynnir nifer helaeth o ddefnyddiau gan unigolion, cwmnïau a chyrff eraill, fel arfer drwy adnau neu rodd, ac yn achlysurol drwy bwrcas. Gyda'r defnyddiau hyn, fe geisir sicrhau trwy gytundeb, ystod o hawliau, er mwyn sicrhau'r budd cyhoeddus gorau posib ohonynt. Deunydd clyweled yw'r mwyaf cymhleth o ran hawliau a hawlfreintiau, a dim ond mewn ychydig achosion y mae modd sicrhau hawliau cynhwysfawr dros y deunydd.

Gyda deunydd sydd yn dod oddi wrth gyrff ac unigolion, mae'n arfer yn y sector archifau clyweled i ddarparu copïau gwyllo i'r rhoddwyr/adnewwyr, ac mae'r Archif yn dilyn y drefn honno. Mae'n ddull hollbwysig er mwyn denu'r rhoddion yn y lle cyntaf, ond oherwydd y gost o ddarparu'r copïau, a'r amser y mae'n gallu cymryd cyn bod modd creu'r copïau hynny, fe adolygir y sefyllfa yn rheolaidd.

Mae trefniant arbennig yn bodoli gydag Asiantaeth Ffilm Cymru sy'n ceisio sicrhau bod copi perffaith o bob ffilm a ariennir gan yr Asiantaeth yn cyrraedd yr Archif.

Mae cryn amser yn gallu bod rhwng derbyn deunydd a'i gopïo ar gyfer ei adnabod a'i gatalogio, ac oherwydd hyn fe ddarganfyddir deunydd mewn casgliadau nad ydyw o reidrwydd yn Gymreig. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe wneir ymdrechion i ddad-dderbyn eitemau amherthnasol, a darganfod archifau eraill mwy perthnasol i'w cymryd, neu eu cynnig yn ôl i'r perchenogion.

5.1.9 *Traethodau Ymchwil*

Derbynnir traethodau ymchwil a gyflwynir am raddau uwch oddi mewn i sefydliadau addysg uwch Cymru, gan gynnwys pob traethawd ymchwil doethuriaeth, a thraethodau meistr sydd o ddiddordeb Cymreig neu wedi ennill clod, a derbynnir traethodau perthnasol eraill yn ddethol. Yn gynyddol derbynnir traethodau ar ffurf electronig ond bydd y Llyfrgell yn parhau i ddisgwyl copi caled o unrhyw draethawd o'r fath am gyfnod rhagbrofol. Yn 2009 dechreuodd y Llyfrgell weithio gyda Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru

⁹*Welsh Repository Network*, ar wasanaeth cynaeafu traethodau electronig a fydd yn galluogi'r Llyfrgell i gynaeafu traethodau o'r sefydliadau perthnasol, eu diogelu a chynnal mynediad atynt.

5.1.10 *Mapiau*

⁹ *Welsh Repository Network*. Gweler: <http://www.wrn.aber.ac.uk/>

Yn ogystal â mapiau o Gymru a ddaw trwy Adnau Cyfreithiol ychwanegir at ein casgliad hanesyddol trwy bwrcas a rhodd. Ceir mynediad at holl ddata map digidol yr Arolwg Ordnans, yn adeilad y Llyfrgell, trwy gytundeb gwirfoddol. (Gweler 2.4 uchod).

5.1.11 *Deunydd Graffigol*

Cesglir arlunwaith, portreadau a ffotograffau yn ddethol ar sail cynnwys hanesyddol, dogfennol ac eglurhaol gan ystyried potensial ymchwil, yn y meysydd canlynol:

- Tirluniau o Gymru
- Portreadau Cymreig ac arlunwaith gan artistiaid Cymreig a gweithiau yn dangos digwyddiadau o arwyddocâd Cymreig.
- Cesglir gweithiau celf tri dimensiwn o dan amgylchiadau eithriadol iawn yn unig.
- Ffotograffau sydd yn ymwneud â Chymru neu gan ffotograffwyr Cymreig
- Gweithiau graffigol mewn fformatau digidol, (rhaid ystyried i ba raddau y maent yn unigryw - yn enwedig wrth brynu)

Ceisir gwneud yn sicr bod hawliau'r Llyfrgell dros y gweithiau hyn mor gyflawn â phosibl er mwyn galluogi hyrwyddo'r casgliad yn effeithiol, caniatáu digido am resymau cadwedigaethol ac er mwyn creu adnoddau eraill o fudd i ddefnyddwyr a lle'n briodol, i greu incwm i'r Llyfrgell.

5.1.12 *Copiau Dirprwyol*

Ceisir y Llyfrgell dderbyn, yn ddewisol, gopiau dirprwyol o ddefnyddiau pwysig sy'n ymwneud â Chymru a gedwir mewn sefydliadau eraill, neu ddefnyddiau sy'n ychwanegu at ddaliadau sydd yma eisoes. Gall y Llyfrgell ystyried gwneud copiau digidol a ffacsimili ei hun o'r fath ddefnyddiau.

5.2 *Deunydd Adnau Cyfreithiol a Chytundebau Gwirfoddol o fewn y DG*

5.2.1 *Adnau Cyfreithiol Print*

Mae derbynion print Adnau Cyfreithiol y Llyfrgell yn ffynhonnell bwysig iawn i gyfoethogi ei chasgliadau ac i ddiwallu anghenion ei defnyddwyr mewn amryw feysydd yn y celfyddydau a'r gwyddorau. Mae hyn yn cynnwys bob math o fformatau print yn ogystal â llyfrau a chyfnodolion, megis mapiau a cherddoriaeth .

Derbynnir y mwyafrif o gyhoeddiadau'r DG ac Iwerddon.

Nid ydym yn derbyn cyhoeddiadau lleol y DG ac Iwerddon.

Nid ydym yn derbyn ail gyhoeddiadau gweithiau sydd gennym eisoes.

Lle mae cyhoeddiad printiedig yn troi'n gyhoeddiad ar-lein byddwn yn derbyn mynediad at y cyhoeddiad ar-lein, o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol Electronig, unwaith y mae'r mynediad hwn ar gael, yn lle derbyn copi print.

Lle mae angen, byddwn yn cytuno gyda'r Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol eraill ar ddiogelu dau gopi o unrhyw gyhoeddiad o fewn y system Adnau Cyfreithiol Prydeinig.

Bydd y Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ynghyd â'r Llyfrgell Brydeinig, yn parhau i dderbyn cyfrifoldeb am gadw cyfnodolion mewn meysydd penodol.

5.2.2 *Cyhoeddiadau Electronig*

Ceir mynediad o fewn yr ystafelloedd darllen, i gyhoeddiadau electronig a hawlir gan y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol - e-gyfnodolion ac e-lyfrau gan fwyaf. Archifir gwefannau Parth We'r DG gan y Llyfrgelloedd adnau Cyfreithiol ac mae hefyd mynediad iddynt yn ystafelloedd darllen y Llyfrgell.

5.2.3 *Cytundebau Gwirfoddol Eraill*

Ceir mynediad i ddata map digidol gweddill Prydain a Gogledd Iwerddon trwy gytundeb gwirfoddol. (Gweler 2.4 uchod)

5.2.4 *Cyhoeddiadau Swyddogol*

Daw cyhoeddiadau swyddogol print eraill y Deyrnas Gyfunol; Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol. Nid ydym yn derbyn cyhoeddiadau swyddogol o natur leol.

Yr ydym yn prynu mynediad i ychydig o adnoddau electronig ychwanegol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr.

5.3 *Casgliad Deunydd Celtaidd*

5.3.1 *Adnau Cyfreithiol Print*

Mae'r Llyfrgell wedi casglu ym maes deunydd Celtaidd ers ei sefydlu a hynny'n gynhwysfawr. Mae'r Llyfrgell hefyd yn casglu ym maes Llenyddiaeth Arthuraidd yn eang iawn. Mae llawer o'r deunydd perthnasol ar yr ieithoedd a'r gwledydd Celtaidd modern, yn ogystal â chyhoeddiadau am y Celtaid hynafol a'u hieithoedd, gweithiau llenyddol Arthuraidd ac ymdriniaethau beirniadol â'r pwnc, yn cyrraedd o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol.

5.3.2 *Cyhoeddiadau Electronig*

Mae deunydd perthnasol i'r casgliad hwn yn cyrraedd y Llyfrgell o dan reoliadau Adnau Cyfreithiol Di-brint. Rydym yn parhau i archifo detholiad o wefannau perthnasol Prydeinig a thramor o dan y drefn 'Archifo gyda Chaniatâd'.

5.3.3 *Cyhoeddiadau Pwrcas a Rhodd*

Trwy bwrcas a rhodd y mae'r Llyfrgell yn ychwanegu at y deunydd hwn, yn enwedig trwy brynu deunydd perthnasol a gyhoeddir y tu allan i Brydain ac Iwerddon mewn nifer o ieithoedd Ewropeaidd. Mae'r Llyfrgell yn prynu detholiad eang iawn o gyhoeddiadau yn Llydaweg a Ffrangeg am Lydaw; detholiad eang o gyhoeddiadau am archeoleg, hanes, crefydd ac ieithoedd hynafol y Celtaid; a gweithiau llenyddol Arthuraidd ac ymdriniaethau beirniadol â'r pwnc, mewn nifer o ieithoedd Ewrop.

Nid ydym yn prynu pob cyhoeddiad yn y maes yn enwedig os yw'n lleol iawn neu'n waith sydd yn poblogeiddio neu yn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd yn rhywle arall eisoes.

5.4 *Casgliad Ymchwil Rhyngwladol*

5.4.1 *Cyhoeddiadau print*

Yn y gorffennol, prynwyd cyhoeddiadau print a derbyniwyd gweithiau print rhodd, er mwyn ychwanegu at ein casgliad mewn nifer o bynciau yn y dyniaethau gan fwyaf. Nid yw gweithiau print pwrcas a rhodd yn y pynciau hyn bellach, mor ganolog i'n blaenoriaethau casglu ac ni dderbynnir gweithiau o'r fath heb ystyried anghenion defnyddwyr a defnydd tebygol. Yr ydym wedi etifeddu nifer o danysgrifiadau i gyfnodolion ac archebion sefydlog ar gyfer cyfresi, megis geiriaduron, a gweithiau cyflawn awduron, meddylwyr a chyfansoddwyr pwysig y Byd Gorllewinol ac wedi dechrau ar y gwaith o adolygu'r archebion hyn a diddymu nifer ohonynt. Y mae ein casgliad Adnau Cyfreithiol print yn ffynhonnell bwysig o ddeunydd perthnasol yn y dyniaethau a'r gwyddorau ond yn gynyddol, edrychir tuag at ddeunydd Adnau Cyfreithiol Electronig a phrynu mynediad at adnoddau electronig ar-lein i gynnal ein casglu rhyngwladol. Gwneir hynny unwaith eto, gan ystyried anghenion ein defnyddwyr a defnydd tebygol o'r gweithiau.

5.4.2 *Pryniadau o ddeunydd ar-lein*

Yn gynyddol edrychir tuag at fynediad i adnoddau electronig ar-lein i ddiwallu nifer o anghenion ein defnyddwyr. Y mae'r Llyfrgell yn prynu nifer o adnoddau electronig ar-lein, weithiau oherwydd nad ydynt yn cael eu hadneuo o dan ddeddfwriaeth Adnau Cyfreithiol eto. Lle'n bosibl rydym yn sicrhau mynediad o bell trwy Gymru, gan ddefnyddio system awdurdodi defnyddwyr cydnabyddedig. Byddwn yn bodloni ar fynediad o fewn adeilad y Llyfrgell yn unig mewn rhai achosion.

Gall y dull pwrcasu fod yn danysgrifiad neu'n bwrcas unwaith ac am byth (ynghyd â ffi flynyddol fel arfer) gan ddibynnu ar natur yr adnodd. Weithiau bydd y Llyfrgell ond yn ystyried tanysgrifiad tymor penodol yn hytrach na mynediad tymor hir.

Dylai unrhyw drwydded sicrhau'r hawliad gorau posibl i'r Llyfrgell o ran copïo, argraffu, mynediad tymor hir ac unrhyw hawliau perthnasol eraill.

Lle'n briodol byddwn am gydweithio â MALD¹⁰ a sefydliadau eraill wrth brynu adnoddau o'r fath er mwyn cyrraedd y mynediad ehangaf posibl ar draws Cymru.

5.4.3 Cyhoeddiadau swyddogol

Cesglir rhai cyhoeddiadau swyddogol o'r tu allan i'r DG, o'r Cenhedloedd Unedig, yr OECD (Organisation for Economic Cooperation and Development) a'r OSCE (Organization for Security and Co-operation in Europe).

6. Crynodeb

Y mae llyfrgelloedd trwy'r byd yn wynebu, os nad yn profi'n barod, newidiadau pellgyrhaeddol i'w ffyrdd o weithio, i gynnwys eu casgliadau ac i'w swyddogaethau craidd. Y mae twf cyfryngau electronig a threiddio hollbresennol y We i'n bywydau beunyddiol yn ffactorau a fydd yn parhau i effeithio arnynt am flynyddoedd i ddod ac i drawsnewid y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Yn ogystal y mae llyfrgelloedd yn y Byd Gorllewinol sydd yn dibynnu ar arian cyhoeddus wedi gweld cwmp rheolaidd yn eu cyllidebau dros nifer o flynyddoedd, hyd yn oed cyn i'r cyfyngder ariannol presennol ddechrau gwasgu arnynt. Bydd ymwneud â'r dechnoleg newydd a datblygu gweithgareddau craidd newydd wedi'u seilio arni, tra ar yr un pryd yn amddiffyn llawer o'n gweithgareddau craidd traddodiadol, gyda chyllidebau llawer llai, yn her ac y mae'n amlwg, er gwaethaf optimistaeth rwydd sloganau megis 'gwneud mwy gyda llai', na fydd pob peth a ystyriwn yn bwysig o ran y gwasanaeth a gynigwn yn parhau.

Amcan y Polisi Datblygu Casgliadau diwygiedig hwn yw helpu cyfeirio'r Llyfrgell trwy gyfnod o newid, trwy ganolbwyntio'n hegion ar ddatblygu gweithgareddau newydd a fydd yn hanfodol i'w dyfodol ac yn ehangu'r gwasanaeth a gynigir i'n defnyddwyr, heb beryglu'r hyn sydd wedi'i adeiladu gan gynifer o genedlaethau cydwytodol yn y gorffennol. Fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru y mae gennym genhadaeth unigryw i gasglu, diogelu a chynnig mynediad at ddeunydd sydd yn ymwneud â Chymru a'i phobl ac y mae'n gwbl briodol ein bod yn ehangu'r gweithgaredd hwn i faes cyfryngau electronig. Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i fod yn ffynhonnell wybodaeth am weddill y byd i drigolion Cymru. Yn y gorffennol, gwneid hynny trwy greu casgliad cynhwysfawr o destunau print ond erbyn heddiw y mae'r We wedi trawsnewid ein harferion chwilio am wybodaeth yn llwyr, a thrwy hynny newid ein rôl fel darparwyr gwybodaeth. Y mae swyddogaeth bwysig gennym o hyd i fod yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy nad yw, o angenrheidrwydd, ar gael am ddim ar y We ac fe gyflawnir y swyddogaeth honno drwy nifer o gyfryngau gwahanol, analog a digidol, a dderbynnir i'r Llyfrgell trwy Adnau Cyfreithiol, pwrcas a rhodd.

Trwy ailystyried yr hyn sydd wir yn hanfodol i'r Llyfrgell a'i defnyddwyr, gallwn barhau i gasglu yn effeithiol ac ateb gofynion ein defnyddwyr.

¹⁰ MALD: Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Gweler: <http://gov.wales/topics/cultureandsport/museums-archives-libraries/?skip=1&lang=cy>